# Y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

## Cofnodion EIN(2) 05-06

### Dyddiad y cyfarfod: 5 Gorffennaf 2006
### Amser y cyfarfod: 9.00 – 12.45
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Bae Caerdydd

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Andrew Davies (Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau) | Gorllewin Abertawe |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Alun Ffred Jones | Caernarfon |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |

#### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gareth Hall | Cyfarwyddwr, yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau |
| Robin Shaw | Cyfarwyddwr, Trafnidiaeth Cymru |
| Cathy Presland | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Bob Macey | Cyfarwyddwr, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Jonathan Jones | Cyfarwyddwr, Twristiaeth a Marchnata |

| | |
|---|---|
| Steve Webb | Cyfarwyddwr, Polisi Busnes |
| Tracey Burke | Cyfarwyddwr, Strategaeth ac Adolygu |
| Eleanor Knight | Strategaeth ac Adolygu |
| Rob Halford | Prif Ddadansoddwr Polisi, y Grwp Polisi a Strategaeth |
| Robin Fears | Cynghorydd Arbenigol |

### Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Claire Morris | Clerc |
| Chris Reading | Clerc |
| Leanne Hatcher | Dirprwy Glerc |
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad |

### Eitem 1: Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriad gan Kirsty Williams ac roedd Eleanor Burnham yn dirprwyo ar ei rhan.

1.2 Datganodd Leighton Andrews fuddiant gan ddweud bod ei wraig yn Gyfarwyddwr BT Cymru.

1.3 Mae cofnod gair-am-air o’r cyfarfod ar gael.

### Eitem 2: Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol

Papur: EIN(2) 03-06 – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mehefin
EIN(2) 04-06 – Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mehefin
EIN(2) 05-06 – Camau heb eu cymryd

2.1 Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mehefin fel cofnod cywir.

2.2 Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mehefin fel cofnod cywir.

2.3 Gofynnodd Aelodau am ragor o wybodaeth am y camau canlynol sydd heb eu cymryd.

- Dadansoddiad o’r ennill a’r colli swyddi a fu yn y sector cyhoeddus mewn ardaloedd Amcan 1 ac ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Amcan 1 (16 Mawrth).
- Y targedau a osodwyd ar gyfer asiantaethau cymorth menter (3 Mai).
- Adolygiad Hybu Cig Cymru o sefyllfa bresennol lladd-dai yng Nghymru (7 Mehefin).
- Dadansoddiad o faint o’r busnesau bach a chanolig y dywedir iddynt gael eu creu gyda chymorth arian Amcan 1 sy’n parhau i fodoli (7 Mehefin).

2.4 Gofynnodd yr Aelodau hefyd am bapur ar Gymhorthion Gweithredu ar gyfer cronfeydd cydlyniant newydd.

## Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

Papur: EIN(2) 05-06 (p.1)

3.1 Cyflwynodd y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau ei adroddiad

Pwyntiau Gweithredu:

- Cytunodd y Gweinidog i ddarparu amcangyfrif o’r cyfraniad a wneir tuag at allforion Cymreig gan sefydliad BA ym Mrychdyn.
- Cytunodd y Gweinidog i ymchwilio, gyda swyddogion, i’r maes ar gyfer adolygu rhestr gymeradwy’r Cynulliad o gwmnïau sy’n darparu gwasanaethau argraffu, yn dilyn uno Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru, a darparu papur ar gyfer y Pwyllgor ynghylch y materion.
- Darparu rhagor o wybodaeth am adeilad Llywodraeth y Cynulliad yng Nghyffordd Llandudno.
- Darparu rhagor o wybodaeth am Barc Busnes Gogledd Cymru.
- Bydd adroddiad yn cael ei gynhyrchu ar y cynnydd o ran cael gwell safon o wasanaethau i gwsmeriaid. Bydd hyn yn cynnwys nifer y cysylltiadau ym mhob swyddfa a’r nifer o fusnesau sy’n cael cymorth.
- Codwyd y mater o ddadansoddi’r galw mewn perthynas â’r Prosiect Cyflymder Ffeibr. Dywedodd Gareth Hall fod adolygiad yn cael ei gynnal ac y byddai rhagor o wybodaeth, yn cynnwys dadansoddiad galw mwy diweddar yn cael ei roi o flaen y Pwyllgor.

## Eitem 4: Y sefyllfa ddiweddaraf o ran y Rhaglen Weithredol

Papur: EIN(2) 05-06 (p.2)

4.1 Clywodd y Pwyllgor y sefyllfa ddiweddaraf o ran paratoi’r rhaglenni cronfeydd strwythurol ar ôl 2006

## Eitem 5: Adroddiad Chwarterol Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Papur: EIN(2) 05-06 (p.3)

5.1 Nododd Aelodau’r Pwyllgor yr adroddiad.

## Eitem 6: Adroddiad Diwedd Blwyddyn Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru

Papur: EIN(2) 05-06 (p.4)

6.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiadau Diwedd Blwyddyn drafft Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru.

## Eitem 7: Cynllun Busnes yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

Papur: EIN(2) 05-06 (p.5)

7.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried Cynllun Busnes yr Adran Menter Arloesi a Rhwydweithiau ar gyfer 2006-07.

Pwynt Gweithredu:

- Bydd dadansoddiad yn cael ei ddarparu ar yr ardaloedd a gafodd eu cynnwys ym mhecyn adfywio Canol y Cymoedd.

## Eitem 8: Cymorth Rhanbarthol – Canllawiau'r DU

Papur: EIN(2) 05-06 (p.6)

8.1 Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar y sefyllfa bresennol mewn perthynas â chwblhau'r Map o Ardaloedd Cymorth y DU ar gyfer y cyfnod 2007 – 2013.

## Eitem 9: Strategaeth Blaenau'r Cymoedd

Papur: EIN(2) 05-06 (p.7)

9.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr ymateb i'r Ymgynghori ar 'Turning Heads ..Strategaeth ar gyfer Blaenau'r Cymoedd 2020'.

## Eitem 10: Unrhyw Fater Arall

10.1 Nododd y pwyllgor y Railways (Closure Guidance) (England and Wales) Order 2006 i graffu arno.

## Sesiwn Breifat

## Eitem 11: Adolygiad o'r Polisi Gwyddoniaeth – Ystyried yr Adroddiad Terfynol

Papur: EIN(2) 05-06 (p.8)

11.1 Yn unol â Rheol Sefydlog 8.24(vi), penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o’r cyfarfod hwn tra ei fod yn ystyried ei adroddiad drafft terfynol.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**